BWRDD DIOGELU GOGLEDD CYMRU

PROTOCOL ATAL HUNANLADDIAD

Dyddiad Adolygu	**Diwygiwyd gan**	**Dyddiad Cymeradwyo**	
02/03/2026	F6 wedi'i gymeradwyo	P a G	02/03/2026
		Adolygu	

Protocol Atal Hunanladdiad - Gogledd Cymru

Rhagair

Mae'r protocol hwn wedi'i ddatblygu gan aelodau partner Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a Fforwm Hunan-niweidio a Hunanladdiad Gogledd Cymru mewn ymateb i'r angen cynyddol am fframwaith i alluogi asiantaethau i weithio gyda'i gilydd i gefnogi diogelwch unigolion sydd mewn perygl o hunanladdiad.

Nid yw hunanladdiad yn anochel. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n meddwl am ladd eu hunain neu'n cael teimladau am ladd eu hunain yn mynd ymlaen i ladd eu hunain. Mae gobaith o wella os ceir cefnogaeth dosturiol a'r cymorth iawn. Gall pob cam a gymerir i oedi neu atal hunanladdiad achub bywyd, o eiriau caredig gan ddieithryn neu ffrind, i ymyrraeth broffesiynol.

Y Weledigaeth ar gyfer Cymru, fel y nodir yn **Dealltwriaeth**: strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niweidio ar gyfer Cymru yw:

Bydd cyfraddau blynyddol hunanladdiad yng Nghymru yn gostwng yn barhaus. Bydd pobl sy'n hunananafu, sy'n hunanwenwyno, sy'n synio am hunanladdiad neu sydd wedi ceisio cyflawni hunanladdiad yn teimlo'n ddiogel a'u bod nhw'n cael eu deall. Byddan nhw'n perthyn i gymunedau gwybodus a thosturiol a byddan nhw'n gallu cael gafael ar gymorth a gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion pryd bynnag a lle bynnag mae eu hangen arnynt.

Mae'r protocol hwn yn ceisio cyfrannu at Amcan 2 yn y strategaeth:

Atal: Bydd gennym ni ymateb traws-lywodraethol ac aml-asiantaeth wedi'i gydlynu

Mae hunanladdiad yn gymhleth; yn anaml iawn y bydd un achos neu ateb, ac mae profiad pob unigolyn yn wahanol ac yn gofyn am ymateb sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r protocol hwn yn ceisio cefnogi gweithio a chyfathrebu amlasiantaeth, ac mae'n cynnig dewis ychwanegol pan nad yw cynigion presennol yn ddigonol, ac i alluogi'r gefnogaeth iawn, ar yr adeg iawn, gan y bobl iawn.

I gael cymorth: **Cael Cymorth Nawr - SSHP**

I ddysgu rhagor am atal hunanladdiad yng Nghymru: **Modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth am Hunanladdiad - SSHP | Hwb Hyfforddiant SSHP Cymru**

Cynnwys:

1. Cyflwyniad a Phwrpas 3

2. Diffiniadau 5

2.1 Ymddygiad hunanladdol 5

2.2 Oedolyn mewn perygl 5

2.3 Risg sylweddol 5

2.4 Cyfrifoldeb yr asiantaeth arweiniol 6

2.5 Rhyngwynebau â gwasanaethau unigol 6

3. Proses y Protocol 7

3.1 Nodi'r unigolyn 7

3.2 Cyn cyfarfod y Protocol Atal Hunanladdiad amlasiantaeth ... 7

3.3 Yn ystod cyfarfod y Protocol Atal Hunanladdiad amlasiantaeth 8

3.4 Ar ôl cyfarfod y Protocol Atal Hunanladdiad amlasiantaeth ... 8

4. Cynllun wrth gefn 9

Atodiad 1 - Diagram Llif 10

Atodiad 2 - Cysylltiadau'r Gwasanaeth 11

Atodiad 3 - Prosesau amlasiantaeth presennol ar gyfer atal hunanladdiad (Oedolion) 12

Atodiad 4 – Iaith 14

Atodiad 5 - Templed y Rhaglen 16

Atodiad 6 - Templed Log Gweithredu 17

Atodiad 7 - Rhestr wirio ar gyfer cwblhau 18

Atodiad 8 - Datganiad Cyfrinachedd a Lles 19

Atodiad 9 - Rhestr o Bartneriaid Posibl 20

Atodiad 10 - Cynlluniau Diogelwch 21

Atodiad 11 – Cyfeiriadau 22

1.0 Cyflwyniad a Phwrpas

1.1 Gellir cyfeirio at y Protocol hwn pan gredir bod **oedolyn**[1] mewn perygl o ladd ei hun. Gellir ystyried bod unigolyn mewn perygl o ladd ei hun pan fo'r canlynol yn berthnasol:

- Bydd yn dangos meddyliau ac ymddygiadau hunanladdol sy'n gwaethygu (Gweler Diffiniadau)
- Bydd yn methu â chael gafael ar gymorth proffesiynol drwy'r llwybrau arferol.
- Bydd yn methu ag ymgysylltu â'r llwybrau cymorth arferol, neu â chynllun diogelwch
- Nid oes ganddo rwydwaith cymorth

1.2 **Nod** y protocol yw atal anaf difrifol neu farwolaeth unigolion trwy hunanladdiad, trwy sicrhau bod:

- Protocol i'w ddilyn pan nad yw anghenion unigolyn yn cyd-fynd yn union â chynigion arferol y gwasanaeth
- Dealltwriaeth gyffredin, amlasiantaeth a chydnabyddiaeth o'r materion
- Gwaith ac arfer amlasiantaeth effeithiol
- Pryderon yn cael blaenoriaeth briodol
- Mae asiantaethau a sefydliadau yn cynnal eu dyletswyddau gofal (â phersbectif sy'n canolbwyntio ar yr hyn y gallwn ni ei wneud yn hytrach na'r hyn na allwn ni ei wneud)
- Ymateb cymesur i lefel y perygl i'w hunain ac i eraill

Mae'r Protocol yn cyfeirio at brosesau a gweithdrefnau presennol y dylid eu harchwilio yn y lle cyntaf i ddod â phartneriaid perthnasol ynghyd i gadw unigolyn yn ddiogel. Pan nad yw prosesau a gweithdrefnau presennol wedi arwain at y canlyniad a ddymunir, neu pan nad oes rhai yn bodoli, mae'r protocol hwn yn cynnig strwythur i alluogi trafodaeth amlasiantaeth a chynllun i atal hunanladdiad. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol pan fo rhwystrau i ymgysylltu â'r unigolyn, neu rwystrau i'r unigolyn gael cymorth. Disgwylir y bydd y protocol yn cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau eithriadol.

Gweler y siart llif yn Atodiad 1.

1.3 Cyflawnir y nod hwn drwy:

- Hyrwyddo dull sy'n **canolbwyntio ar yr unigolyn** sy'n cefnogi hawl yr unigolyn i gael ei drin â pharch ac urddas, a'i gefnogi i gymryd rheolaeth dros ei fywyd a byw bywyd mor annibynnol â phosib.

[1]Mae'r protocol hwn yn ymwneud ag oedolion. Canllawiau ar ymateb i faterion hunan-niweidio a hunanladdiad ymhlith pobl ifanc - Ymateb i faterion hunan-niweidio a meddyliau ynghylch hunanladdiad ymhlith pobl ifanc | LLYW.CYMRU

- Cynorthwyo'r broses o gydnabod y **risg o hunanladdiad**
- Gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r gwahanol **bwerau a dyletswyddau** a ddarperir gan ddeddfwriaeth a'u perthnasedd i'r sefyllfa benodol ac anghenion yr unigolyn, gan gynnwys graddau a chyfyngiadau 'dyletswydd gofal' gweithwyr proffesiynol
- Hyrwyddo ymlyniad i safon o **ofal** rhesymol wrth gyflawni dyletswyddau sy'n ofynnol mewn rôl broffesiynol, er mwyn osgoi niwed y gellir ei ragweld
- Hyrwyddo **dull cymesur** o asesu a rheoli perygl
- Hyrwyddo'r '**cymorth iawn ar yr amser iawn gan y bobl iawn'**
- Egluro gwahanol **gyfrifoldebau asiantaethau ac ymarferwyr**, ac wrth wneud hynny, hyrwyddo tryloywder, atebolrwydd, tystiolaeth mewn prosesau penderfynu, camau gweithredu a gymerwyd a hyrwyddo lefel briodol o ymyrraeth trwy ddull amlasiantaeth.

1.4 Egwyddorion[2]

Grymuso - Rhagdybiaeth o benderfyniadau a arweinir gan yr unigolyn a chydsyniad ar sail gwybodaeth.

Amddiffyn - Cefnogaeth a chynrychiolaeth ar gyfer y rhai sydd â'r angen mwyaf.

Atal - Mae'n well gweithredu cyn i niwed ddigwydd.

Cymesuredd - Ymateb cymesur a lleiaf ymwthiol sy'n briodol i'r perygl a gyflwynir.

Partneriaeth - Atebion lleol trwy asiantaethau sy'n cydweithio â'u cymunedau. Mae gan gymunedau ran i'w chwarae wrth gydnabod perygl o hunanladdiad a chyfeirio pobl at gymorth.

Atebolrwydd - Atebolrwydd a thryloywder wrth atal hunanladdiad.

1.5 Grymuso unigolion (Galluedd Meddyliol)

Mae meithrin perthynas gadarnhaol ag unigolion sy'n cael meddyliau hunanladdol ac sy'n arddangos ymddygiad hunanladdol yn hanfodol i gyflawni newid ar eu cyfer nhw, ac i sicrhau eu diogelwch a'u bod nhw'n cael eu hamddiffyn. Mae angen rhoi ystyriaeth yn gynnar, i benderfynu a oes gan yr unigolyn y gallu meddyliol i ddeall a gwneud penderfyniadau gwybodus am eu hymatebion i bryderon. Os credir bod gan yr unigolyn ddiffyg galluedd meddyliol i wneud penderfyniad perthnasol, yna mae'n rhaid defnyddio egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol (2005) i arwain y cynllunio, o fewn y protocol hwn.

[2] Addaswyd o Brotocol Celcio a Hunan-esgeulustod BDGC

2 Diffiniadau

2.1 Ymddygiad Hunanladdol

Mae hunanladdiad yn gymhleth; yn anaml iawn y bydd un achos neu ateb, ac mae profiad pob unigolyn yn wahanol ac yn gofyn am ymateb sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn[3].

Ar gyfer y protocol hwn, caiff ymddygiad hunanladdol ei ddisgrifio fel y newid o gael teimladau a meddyliau am hunanladdiad i weithredu arnynt.

Mae rhagor o wybodaeth am y newid ar gael yn y Model Cymhellol-Ewyllysol Integredig (IMV) Y Model IMV – Labordy Ymchwil ar Ymddygiad Hunanladdol

2.2 Oedolyn mewn perygl

Mae oedolyn mewn perygl yn unigolyn dros 18 oed sy'n:

- Profi neu mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod*,
- Sydd angen gofal a chymorth (pa un a yw'r awdurdod yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio), ac
- O ganlyniad i'r anghenion hynny, nid yw'r unigolyn yn gallu diogelu ef neu hi ei hun yn erbyn y gamdriniaeth neu'r esgeulustod neu'r perygl o hynny

*Mae canllawiau Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi y gall hunan-esgeulustod fod yn fath o esgeulustod, ac mae'n rhoi'r enghreifftiau canlynol:

- diffyg hunanofal i'r graddau ei fod yn bygwth iechyd a diogelwch personol
- esgeuluso gofalu am hylendid personol, iechyd neu amgylchoedd
- methu ag osgoi hunan-niweidio
- methu â cheisio cymorth neu gael gafael ar wasanaethau i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol
- anallu neu amharodrwydd i reoli materion personol

Ceir amgylchiadau lle bydd y perygl o hunanladdiad yn cael ei nodi'n bryder diogelu. Dylai ymatebion ganolbwyntio ar yr unigolyn, ymgysylltu ag amgylchiadau unigol, a chynnwys y rhesymau dros ystyried hunanladdiad a'r risgiau a gyflwynir.

Gweler Pwynt 10 i gael rhagor o wybodaeth: Deall yr hyn sy'n cael ei ystyried yn bryder diogelu: Cwestiynau Cyffredin | Y Gymdeithas Llywodraeth Leol

2.3 Risg Sylweddol

[3] Mythau am hunanladdiad - SSHP

Rydym ni'n gwybod bod y ffactorau hyn yn cynyddu'r risg o hunanladdiad

- wedi ceisio cyflawni hunanladdiad o'r blaen, neu hanes o ddigwyddiadau argyfwng â chanlyniadau sy'n bygwth bywyd
- mynediad at ddulliau hunanladdiad
- camddefnyddio alcohol neu gyffuriau
- gwrthdaro o fewn perthynas
- llai o sgiliau ymdopi
- teimlo'n ynysig
- profedigaeth drwy hunanladdiad
- tramgwyddwr neu oroeswr trais domestig
- anghenion iechyd meddwl sydd heb eu diwallu
- nid oes gan yr unigolyn lawer o ddewis neu ddim dewis na rheolaeth dros agweddau hanfodol ar ei fywyd, yr amgylchedd neu faterion ariannol.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.

2.4 Cyfrifoldeb yr asiantaeth arweiniol

Gallai'r asiantaeth arweiniol fod yn unrhyw asiantaeth bartner i'r Bwrdd Diogelu, neu asiantaethau eraill â dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol, sy'n nodi yn gyntaf y gallai unigolyn ddod o dan gwmpas y protocol hwn.

Cytunwyd bod gwaith yn ymwneud ag atal hunanladdiad yn flaenoriaeth amlasiantaeth a disgwylir y bydd:

- Pob asiantaeth bartner sydd wedi cofrestru ar gyfer y protocol hwn yn ymgysylltu ac yn cefnogi'r broses pan ofynnir am hynny gan yr asiantaeth arweiniol fel sy'n briodol neu yn ôl y gofyn.
- Mae'r asiantaeth arweiniol yn cymryd cyfrifoldeb am gydlynu gwaith partneriaeth amlasiantaeth.
- Dylai asiantaethau arweiniol gael cyngor gan eu harweinydd neu dîm diogelu dynodedig

Egwyddorion yn *Dealltwriaeth*, Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru:

- Arweinyddiaeth, perchnogaeth ac atebolrwydd
- Mae hunanladdiad a hunan-niweidio yn fusnes i bawb
- Canolbwyntio ar anghydraddoldebau a grwpiau sydd mewn perygl
- Cydweithio aml-sector

Mae'n debygol na fydd yr unigolyn sydd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad yn bodloni'r meini prawf yn glir ar gyfer unrhyw un neu nifer o asiantaethau neu sefydliadau. Efallai bod unrhyw ymgais flaenorol o geisio ymgysylltu wedi cael fawr ddim llwyddiant, os o gwbl. Mae'r ffactorau hyn yn cynyddu'r risg a dylid eu nodi fel dangosyddion risg a fydd yn ysgogi camau gweithredu dan y protocol hwn.

2.5 Rhyngwynebau â gwasanaethau unigol

Dylid defnyddio'r protocol hwn pan fydd llwybrau cymorth eraill gan asiantaethau unigol wedi'u disbyddu, a phan nad yw prosesau amlasiantaeth eraill wedi bod yn effeithiol neu phan na allan nhw fod yn effeithiol.

Gweler **Atodiad 2** ar gyfer cysylltiadau allweddol cymorth presennol, ac **Atodiad 3** ar gyfer crynodeb o brosesau amlasiantaeth presennol.

3. Proses y Protocol

Cyfeiriwch at y siart llif yn **Atodiad 1**

3.1 Nodi'r unigolyn

Gellir defnyddio'r protocol hwn ar gyfer unrhyw unigolyn pan fo pryder ei fod mewn perygl o gyflawni hunanladdiad, a phan nad yw'r llwybrau cefnogaeth neu atal arferol yn effeithiol. Dyma rai enghreifftiau:

- Unigolyn nad yw'n ymgysylltu nac yn cydnabod ei fod mewn perygl
- Unigolyn sy'n gofyn am gymorth, ond nad yw'n ffitio dan unrhyw feini prawf gwasanaeth unigol, ac felly nid yw'n glir pwy ddylai ei gefnogi.
- Unigolyn y mae ei anghenion a'i risg yn fwy na'r hyn y gall y gwasanaeth(au) unigol sy'n ei gefnogi ei gynnig

Cyfeiriwch at y diffiniad o oedolyn mewn perygl yn 2.2.

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r risg gysylltiedig bosibl a'r ffactorau amddiffynnol, a'r newid yn natur risgiau[4].

3.2 Cyn cyfarfod y Protocol Atal Hunanladdiad amlasiantaeth

Yn gyntaf, dylid pennu:

- a yw'r unigolyn wedi cael unrhyw gymorth gan wasanaethau unigol yn barod
- a yw'r unigolyn eisoes wedi bod yn destun trafodaeth amlasiantaeth presennol i reoli risg

(os mai 'na' yw'r ateb ar gyfer yr uchod, *dylid archwilio'r llwybrau hyn yn gyntaf cyn bwrw ymlaen i ddefnyddio'r Protocol hwn* – Gweler **Atodiad 3**)

Dylai'r broses o gasglu gwybodaeth gynnwys:

- unrhyw ymgysylltiad blaenorol â'r unigolyn
- dulliau a oedd yn ymddangos eu bod yn datgysylltu'r unigolyn
- gwybodaeth am ddymuniadau a theimladau'r unigolyn
- barn unrhyw un sydd wedi neu sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r unigolyn gan gynnwys perthnasau a chymdogion
- adroddiadau, asesiadau neu gynlluniau proffesiynol presennol (gan gynnwys cynlluniau diogelwch)

Nodyn ar **rannu gwybodaeth**:

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan yn cynnwys Awgrymiadau Ymarfer ar Rannu Gwybodaeth. Dan Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018, cewch rannu gwybodaeth heb ganiatâd os oes sail

[4] https://www.cdc.gov/suicide/risk-factors/index.html

gyfreithlon i wneud hynny, yn eich barn chi, er enghraifft pan allai risg fod i ddiogelwch.

3.3 **Yn ystod** cyfarfod y Protocol Atal Hunanladdiad amlasiantaeth

Gweler **Atodiad 5 a 6** ar gyfer templed o raglen a log gweithredu.

Cynllun Ymateb

Canlyniad cyfarfod Atal Hunanladdiad fydd Cynllun Ymateb amlasiantaeth. Bydd hyn o ganlyniad i gytundeb a dealltwriaeth a rennir rhwng asiantaethau'r sefyllfa a natur y risgiau. Bydd asiantaethau'n nodi'r hyn y gallan nhw ei wneud yn y drafodaeth, ac efallai y bydd hyn yn gofyn am addasu meini prawf gwasanaeth â dychymyg i fodloni anghenion yr unigolyn.

Dylai'r cynllun gynnwys:

- Camau gweithredu uniongyrchol i sicrhau diogelwch yr unigolyn yn y tymor byr, a phwy sy'n gyfrifol am y camau gweithredu

- Asiantaeth arweiniol a nodwyd i gynnal asesiad llawn o anghenion yr unigolyn – (er enghraifft, Asesiad Deddf Iechyd Meddwl / Asesiad Anghenion Gofal a Chymorth)

- Yr arweinydd a nodwyd i weithio gyda'r unigolyn i gytuno ar gynllun diogelwch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (Gweler **Atodiad 10** ar gyfer egwyddorion ac enghreifftiau)

Cytuno ar drefniadau monitro ac adolygu.

Noder: Pan fo pryderon nad oes gan yr unigolyn y gallu meddyliol neu ei bod yn ymddangos nad oes ganddo'r gallu meddyliol i ddeall y peryglon sy'n gysylltiedig â'i ymddygiad, mae'n rhaid ystyried asesiad gallu meddyliol mewn cysylltiad â'i allu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch y peryglon a nodwyd.

3.4 **Ar ôl** cyfarfod y Protocol Atal Hunanladdiad amlasiantaeth

Cadw cofnodion

Bydd y cofnod achos yn cynnwys cofnod sy'n rhoi crynodeb o'r ymdrechion a'r camau a gymerwyd gan yr holl asiantaethau dan sylw. Bydd hefyd angen i asiantaethau unigol gadw eu cofnodion eu hunain o'u cyfranogiad penodol. Cedwir cofnodion cywir, a dylid dilyn polisi a gweithdrefnau cofnodi achosion a gytunwyd yn lleol.

Camau gweithredu gan asiantaethau unigol

Asiantaethau unigol i gwblhau'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod Protocol.

Monitro / adolygu

Dylai'r asiantaeth arweiniol alw cyfarfod adolygu ar sail y cytundeb yn ystod y cyfarfod protocol, er mwyn:

- Adolygu'r camau a gwblhawyd
- Adolygu risg
- Gwneud penderfyniad i barhau i fonitro

Mae rhestr wirio ar gyfer cwblhau ar gael yn Atodiad 6.

4. Cynllun wrth gefn

Os oes unrhyw arwydd y gallai'r sefyllfa droi yn un brys, ffoniwch 111, Dewis 2 i gael cyngor.

Os nad yw'r protocol hwn yn sicrhau canlyniad boddhaol, dylid uwchgyfeirio hyn at uwch dim arwain yr asiantaeth arweiniol, ac asiantaethau partner allweddol.

Os nad yw asiantaeth bartner yn cymryd rhan yn y broses, dylid cyfeirio hyn at Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru[5]

[5]Cyfeiriadau defnyddiol: Protocol Gogledd Cymru ar gyfer Datrys Anghydfod Proffesiynol Gogledd Cymru

Atodiad 1 - Diagram Llif



Atodiad 2 - Cysylltiadau'r Gwasanaeth

Gwasanaeth		**Dolen**
Iechyd Meddwl **111 Pwyswch 2**	Cymorth iechyd meddwl brys 24/7 i bobl o bob oed ledled Gogledd Cymru. Mae'n rhad ac am ddim i ffonio ac mae'n ddwyieithog	111 Pwyswch 2 - Cymorth iechyd meddwl i bawb - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Gwasanaethau Cymdeithasol Diogelu	Os ydych chi'n pryderu am oedolyn neu blentyn sydd mewn perygl.	Manylion yn ystod y dydd a thu allan i oriau ar gyfer y chwe Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol awdurdod lleol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru - yn diogelu plant ac oedolion ar draws Gogledd Cymru
Heddlu Gogledd Cymru	Ar gyfer pryderon uniongyrchol yn ymwneud â risg i fywyd	Cysylltu â ni | Heddlu Gogledd Cymru
Cymorth Cymunedol Lleol: Llinell Gymorth C.A.L.L.	Llinell Gymorth Iechyd Meddwl ar gyfer Cymru, sydd hefyd yn cynnwys cyfeiriadur o gymorth lleol	Llinell Gymorth Iechyd Meddwl C.A.L.L. - Llinell Gyngor a Gwrando Cymunedol

Atodiad 3 - Prosesau amlasiantaeth presennol ar gyfer atal hunanladdiad (Oedolion)

Proses	Asiantaeth Arweiniol	Disgrifiad
Cynhadledd Diogelu Oedolion (Cyfarfod strategaeth amlasiantaeth diogelu)	Diogelu Llywodraeth Leol	Dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn galw Cynhadledd Diogelu Oedolion mewn ymateb i bryderon diogelu ynghylch Oedolyn sydd mewn Perygl. Rhagor o wybodaeth am y broses - Diogelu Cymru
Cyfarfodydd Achosion Cymhleth	Heddlu Gogledd Cymru	Gall cyfarfodydd Achosion Cymhleth gael eu trefnu gan unrhyw asiantaeth arweiniol sy'n ymwybodol o unigolyn ag anghenion Iechyd Meddwl, ac mae ganddi nifer o wasanaethau ynghlwm wrth ei gofal, ond nid yw'r gwasanaethau wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd. Efallai bod yr unigolyn yn dod i sylw swyddogion yr heddlu yn rheolaidd, ond efallai nad yr heddlu yw'r asiantaeth fwyaf effeithiol i ymdrin â'r argyfwng. Bydd y cyfarfodydd achosion cymhleth yn aml yn arwain at “gynllun 6 phwynt” y bydd yn cael ei greu gan wasanaeth Iechyd Meddwl a’r claf. Mae'r cynllun yn cael ei rannu â Heddlu Gogledd Cymru a'i roi ar system RMS i swyddogion ei ddilyn yn ystod digwyddiad sy'n gysylltiedig ag Iechyd Meddwl. Mae'n annog cyfranogiad yr unigolyn ei hun, i gynnig cyfeiriad a chyngor i swyddogion ynghylch datrysiadau, ac mae’n sicrhau cyfranogiad gwasanaethau allweddol, a'r hyn y gallan nhw ei gynnig i unigolyn, yn enwedig y tu allan i oriau.
135/136 Grŵp Monitro	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Heddlu Gogledd Cymru	Pwrpas y cyfarfod yw gwella a datblygu cyfathrebu a phrosesau gwell rhwng Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaethau Statudol i Oedolion a'r Trydydd Sector, sy'n gysylltiedig â gwasanaethau Iechyd Meddwl. Unigolion sy’n gwneud penderfyniadau allweddol o asiantaethau partner i lunio prosesau gwaith strategol a gwella profiad y claf. Mae'r cyfarfod yn galluogi i drafodaeth gael ei chynnal yn uniongyrchol mewn fforwm amlasiantaeth pan fydd digwyddiad niweidiol

		wedi digwydd neu pan gellir dysgu o ddigwyddiad a aeth yn dda neu a oedd angen dilyniant / adolygiad. Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn fisol.
Cyfarfod yn ymwneud ag Unigolion Diamddiffyn a Rheoli Risg (VARM)	Heddlu Gogledd Cymru	Mae cyfarfodydd VARM / Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn gyfuniad o faterion VARM (Rheoli Risg Oedolion Diamddiffyn) a materion a phryderon plismona cymunedol a chymdogaeth ehangach sy'n aml yn gorgyffwrdd ac felly mae'r cyfarfod yn lle delfrydol i'w trafod gan fod amrywiaeth eang o asiantaethau partner yn rhan o'r panel. Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn fisol
Cyfarfodydd Lleihau Galw	Heddlu Gogledd Cymru	Cynhelir cyfarfodydd lleihau galw ledled rhanbarth Gogledd Cymru bob mis. Nid mynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl yn unig maen nhw'n ei wneud. Maen nhw'n mynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol parhaus unigolion sy'n aml yn dod i sylw swyddogion lleol. Mae swyddogion yn gweithio gydag asiantaethau partner i drafod unigolion a phenderfynu ar gamau gweithredu amlasiantaeth. Er bod nifer o'r mentrau sy'n cael eu harwain gan yr heddlu yn gysylltiedig â gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, mae'r cyfarfodydd Lleihau Galw hefyd yn cynhyrchu hysbysiadau amddiffyn cymunedol, a Chynlluniau Plismona sy'n Canolbwyntio ar Broblemau.
Cyfarfodydd am Atal Marwolaethau yn y Dyfodol	Gofal Cymdeithasol Conwy	Mewn ymateb i ddyletswydd y Crwner i gyhoeddi Atal Marwolaethau yn y Dyfodol, mae Gofal Cymdeithasol Conwy (Gwasanaeth Pobl Ddiamddiffyn) yn galw cyfarfodydd y Tîm Aml Ddisgyblaeth i ymchwilio i'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn, i ganfod a yw'r Tîm Aml Ddisgyblaeth yn fodlon bod yr holl gamau priodol wedi'u cymryd ac y byddwn ni'n hyderus os cawn ein dwyn i gyfrif. Os nad yw'n fodlon, bydd y Tîm Aml Ddisgyblaeth yn cytuno ar yr hyn sy'n angenrheidiol wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau y cymerir pob gweithred i atal marwolaethau.

Atodiad 4 - Iaith

Y Defnydd o Iaith - SSHP

Gall yr iaith yr ydym ni'n ei defnyddio wrth siarad am iechyd meddwl, salwch meddwl a hunanladdiad a hunan-niweidio ennyn nifer o ymatebion mewn pobl eraill, yn enwedig y rhai sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol, ac mae angen bod yn ofalus ein bod ni'n osgoi tramgwydd, barnu, cyffrogarwch, gor-ddweud, neu barhau â stigma.

Pwyntiau allweddol i'w hystyried wrth siarad am hunanladdiad yw:

dywedwch	**yn hytrach na**	**oherwydd**
'bu farw drwy hunanladdiad' neu **'cymerodd ei fywyd/ei bywyd/eu bywyd ei/eu hun'**	'cyflawni hunanladdiad'	Er mwyn peidio â chysylltu hunanladdiad â 'throsedd'**. Cafodd hunanladdiad ei ddad-droseddoli yn y DU ym 1961**
'cymerodd ei fywyd/ei bywyd/eu bywyd ei/eu hun' neu **'bu farw drwy hunanladdiad'**	'hunanladdiad llwyddiannus'	Er mwyn osgoi cyflwyno hunanladdiad yn ganlyniad dymunol
'nad yw'n angheuol' neu **'wedi ceisio lladd ei/eu hun'**	'hunanladdiad aflwyddiannus'	Er mwyn osgoi cyflwyno hunanladdiad yn ganlyniad dymunol neu wneud i ymgais o hunanladdiad ymddangos yn atyniadol
'cyfraddau hunanladdiad sy'n peri pryder'	'epidemig hunanladdiad'	Er mwyn osgoi cyffrogarwch a gorliwio'r risgiau

Mae dewis ein geiriau'n ofalus yn ymwneud â mwy nag osgoi termau sy'n stigmateiddio yn unig. Gall yr iaith yr ydym ni'n ei defnyddio gael effaith gadarnhaol hefyd, sy'n gwneud dewis y geiriau cywir yr un mor bwysig ag osgoi'r rhai anghywir. Osgoi unrhyw beth sy'n:

- atgyfnerthu stereoteipiau, rhagfarn neu wahaniaethu yn erbyn pobl â salwch meddwl neu sy'n ystyried hunanladdiad
- awgrymu bod salwch meddwl yn gwneud pobl yn fwy creadigol, bregus neu dreisgar
- cyfeirio at neu'n diffinio pobl yn ôl eu diagnosis

Rydym ni'n gwybod na fydd siarad â rhywun am hunanladdiad yn achosi nac yn cynyddu'r meddyliau am hunanladdiad nac yn achosi i'r unigolyn weithredu arnyn nhw. Gall eu helpu nhw i deimlo'n llai ynysig ac ofnus.

Byddwch yn obeithiol. Gall pobl wella ac mae pobl yn gwella. Dylech annog pobl i ofyn am gymorth.

Atodiad 5 - Templed y Rhaglen

	Eitem	Arweinydd
1	Cyflwyniadau	Cadeirydd (Asiantaeth Arweiniol)
2	Datganiad Cyfrinachedd a Lles	Y Cadeirydd
3	Crynodeb o Bryderon	Asiantaeth Arweiniol
4	Crynodeb o gamau gweithredu hyd yma	Pob partner
5	Cynllun diogelwch amlasiantaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn	Pob partner
6	Cytuno ar drefniadau monitro ac adolygu	Asiantaeth arweiniol
7	Unrhyw wersi a ddysgwyd i lywio gwaith yn y dyfodol (i'w fwydo yn ôl i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru)	

Atodiad 6 - Templed Log Gweithredu

Log Gweithredu ar gyfer Cyfarfod Protocol Atal Hunanladdiad

Dyddiad y cyfarfod		
Y rhai oedd yn bresennol yn yr alwad/cyfarfod cyntaf		
Dyddiad y cafodd y log gweithredu ei ddiweddaru ddiwethaf		
Dyddiad y cwblhawyd y log gweithredu		**Cymeradwywyd:**

Camau gweithredu

	Disgrifiad o'r risgiau neu'r pryderon	Camau gweithredu sydd eu hangen i liniaru niwed pellach neu reoli risgiau	Pwy sy'n gyfrifol am y weithred (enw ac asiantaeth)	Dyddiad y cyfarfod dilynol

Atodiad 7 – Rhestr wirio ar gyfer cwblhau

Rhestr wirio ar gyfer dod â'r grŵp Protocol Atal Hunanladdiad i ben

Dyddiad y cyfarfod/galwad olaf		
A ddaethpwyd i gonsensws i ddod â gweithgareddau'r grŵp i ben?	DO	NADDO
Cymeradwywyd gan y Cadeirydd		

Meini prawf ar gyfer dod â grŵp Protocol Atal Hunanladdiad i ben

1	Mae'r holl gamau yn y log gweithredu wedi'u cwblhau	✓ / ✗
2	Mae unrhyw faterion heb eu datrys, na ellid mynd i'r afael â nhw na'u datrys drwy'r Protocol, wedi'u rhannu, neu eu huwchgyfeirio i asiantaethau/lefelau eraill i gael sylw (ynghyd â thystiolaeth)	✓ / ✗
3	Mae unrhyw adnoddau neu becynnau ymateb newydd, ar gyfer gwahanol sectorau, cymunedau neu grwpiau, wedi cael eu rhannu drwy'r Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer atal hunanladdiad.	✓ / ✗

Atodiad 8 - Datganiad Cyfrinachedd a Lles

Byddwch yn ymwybodol y dylai'r rhai sy'n bresennol yn y cyfarfod gadw at y datganiad hwn. Mae'r cyfarfod hwn wedi'i drefnu dan y Protocol Atal Hunanladdiad (Diogelu). Mae'r cyfarfod yn gwbl gyfrinachol, ac ni ddylid rhannu trafodaethau y tu allan i'r cyfarfod.

Caiff nodiadau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod eu rhannu ar y ddealltwriaeth lem y cânt eu cadw'n gyfrinachol a'u storio'n ddiogel. Ni ddylid llungopïo na rhannu'r nodiadau gweithredu heb gytundeb y Cadeirydd ac mae'n rhaid eu cadw mewn adran dan gyfyngiadau neu gyfrinachol yn ffeiliau'r asiantaeth.

Yn ystod y cyfarfod, efallai y byddwch chi'n clywed gwybodaeth a allai fod yn anodd neu a allai beri pryder i chi. Dylai eich asiantaeth roi cefnogaeth a chynnal ôl-drafodaeth berthnasol fel mater o drefn. Os hoffech chi gael cyfle i gael ôl-drafodaeth annibynnol neu gael clust i wrando, bydd y ddolen hon yn cael ei rhannu yn y cyfarfod.

Cael Cymorth Nawr - SSHP

Gwasanaeth ôl-drafod | Papyrus

Atodiad 9 - Rhestr o Bartneriaid Posibl

Dylid gwahodd unrhyw bartneriaid sy'n gweithio gyda'r unigolyn ar hyn o bryd, neu a ddylai fod â rhan i'w chwarae wrth gefnogi'r unigolyn yn y dyfodol, i'r cyfarfod amlasiantaeth.

- **Awdurdod Lleol**
  Gofal Cymdeithasol / Diogelu
  Unrhyw adran berthnasol arall (e.e. Tai; Gwasanaethau Lles)

- **Heddlu Gogledd Cymru**
  Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn
  Tîm plismona lleol

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)**
  Diogelu
  Unrhyw adran berthnasol arall, gan gynnwys gofal sylfaenol, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl ac anableddau dysgu

- **Asiantaethau eraill sydd â chysylltiad rheolaidd â'r unigolyn**
  Er enghraifft:
  Adran Gwaith a Phensiynau / Canolfan Waith
  Sefydliadau trydydd sector a chymunedol
  Cymdeithas Tai
  Y Gwasanaeth Prawf
  Gwasanaeth Cam-drin Domestig
  Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau
  Gwasanaethau Digartrefedd
  Gwasanaethau ymateb (e.e. Gwylwyr y Glannau; Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru; Gwasanaeth Ambiwlans Cymru)

Asiantaethau Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Cyflwyniad i Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru - Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Atodiad 10 - Cynlluniau Diogelwch

Egwyddorion i'w dilyn ar gyfer cynllun diogelwch o ansawdd:

- Yn canolbwyntio ar yr unigolyn
- Wedi'i gynhyrchu ar y cyd â'r unigolyn ac asiantaethau eraill sy'n cefnogi (a gofalwyr os yw'n briodol)
- Yn seiliedig ar gryfder ac yn grymuso
- Hygyrch a hawdd ei ddefnyddio
- Wedi'i deilwra i'r unigolyn ac i wahanol sefyllfaoedd a lleoliadau (gan gynnwys ar-lein)
- Yn mynd i'r afael â meysydd risg yn uniongyrchol
- Wedi'i lywio gan ymddygiadau hunan-niweidiol a hunanladdol blaenorol
- Realistig a chyraeddadwy
- Hyblyg – cynnig dewisiadau
- Manwl
- Gobeithiol
- Wedi'i rannu / wedi'i gyfathrebu
- Dynamig / hyblyg, ac adolygiadau rheolaidd
- Wedi'i adolygu gan gymheiriaid / goruchwyliaeth

Templedi:

4 Mental Health - Hafan | Cadw'n Ddiogel

Papyrus - Cynllun diogelwch hunanladdiad | Papyrus (dwyieithog)

Mae Pob Bywyd yn Bwysig - Cynllunio Diogelwch - Mae Pob Bywyd yn Bwysig

Y Samariaid - Creu 'cynllun diogelwch' | Y Samariaid

Cynllun 6 Pwynt Enghreifftiol:

1. Amcan y cynllun
2. Disgrifiwch y peryglon
3. A allwn ni ddeall yr unigolyn yn well o'i safbwynt nhw?
4. Sut allwn ni ymateb? (Amlasiantaeth)
5. Asesiadau presennol, neu pa asesiadau sydd eu hangen?
6. Crynodeb o'r cynllun diogelwch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Atodiad 11 – Cyfeiriadau

Y Ddeddf Iechyd Meddwl

Deddf Iechyd Meddwl - GIG

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/deddf-gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant-cymru-2014-gwybodaeth-hanfodol.pdf

Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan

Diogelu Cymru

Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio: Dealltwriaeth

Dealltwriaeth: strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niweidio | LLYW.CYMRU

Diolch i'r asiantaethau canlynol am eu cefnogaeth wrth ddrafftio'r Protocol hwn:

Gwasanaeth Diogelu ac Iechyd Meddwl BIPBC; Gofal Cymdeithasol Sir y Fflint; Heddlu Gogledd Cymru; Gwasanaeth Prawf; Cymorth i Fenywod; Cymdeithas Tai Clwyd Alyn ac aelodau o Fforwm Hunanladdiad a Hunan-niwed Gogledd Cymru.